WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011

# Bwrdd Iechyd CwmTaf

**Blwyddyn archwilio:** 2011

**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 265A2012

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Cwm Taf fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Derwyn Owen, Mike Jones, Julie Rees a Matthew Mortlock.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | 4 |
| **Adroddiad manwl** | |
| Yr adroddiad hwn | 6 |
| Adran 1: Archwilio cyfrifon | 7 |
| Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny | 8 |
| Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau | 12 |
| Mae trefniadau ar gyfer sicrhau arbedion effeithlonrwydd wedi eu cryfhau ac mae'r cyfeiriad teithio yn gadarnhaol ar y cyfan, ond erys risg wirioneddol na fydd y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd ei dargedau arbed costau ar gyfer 2011-12 ac felly na fydd yn llwyddo i aros o fewn y terfyn adnoddau a ddyrannwyd | 12 |
| Yn ystod cyfnod o newid sefydliadol newydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â meysydd eraill i'w datblygu a nodwyd yn fy ngwaith ar Asesiad Strwythuredig 2010, ond erys rhai heriau sylweddol | 13 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd lle mae perfformiad yn gymharol wael, sef meysydd a nodwyd yn fy ngwaith ar theatrau llawdriniaethau a llawdriniaeth ddydd, ac mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn craffu ar y cynnydd a wneir | 21 |
| Er i adrannau nodi ffyrdd o gynnal gwasanaethau clinigol pe bai TGCh yn methu, nid yw cynlluniau parhad busnes TGCh na chynlluniau adfer ar ôl trychineb yn cael eu dogfennu na'u profi'n ddigonol ac ni chreffir arnynt yn ddigonol ychwaith | 22 |
| Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â rhai o'r problemau a nodwyd yn dilyn fy ngwaith blaenorol ar wasanaethau mamolaeth a gofal heb ei drefnu ond mae'n dal i wynebu rhai heriau sylweddol o ran cynllunio ar gyfer gwasanaethau a sicrhau gwasanaethau diogel, cynaliadwy o safon | 22 |
| **Atodiadau** | |
| Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf | 24 |
| Ffi archwilio | 25 |

# Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir arnynt gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn Atodiad 1.
4. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

## Archwilio cyfrifon

5. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny.
6. Deuthum hefyd i'r casgliadau canlynol:
   - paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
   - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli mewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.
7. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2010-11, ond dim ond oherwydd arian anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o £18.2 miliwn.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

8. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd yn yr Asesiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd penodol lle darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:
   - mae trefniadau ar gyfer sicrhau arbedion effeithlonrwydd wedi eu cryfhau ac mae'r cyfeiriad teithio yn gadarnhaol ar y cyfan, ond erys risg wirioneddol na fydd y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd ei dargedau arbed costau ar gyfer 2011-12 ac felly na fydd yn llwyddo i aros o fewn y terfyn adnoddau a ddyrannwyd;

- yn ystod cyfnod o newid sefydliadol newydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â meysydd eraill i'w datblygu a nodwyd yn fy ngwaith ar Asesiad Strwythuredig 2010, ond erys rhai heriau sylweddol;
- mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd lle mae perfformiad yn gymharol wael, sef meysydd a nodwyd yn fy ngwaith ar theatrau llawdriniaethau a llawdriniaeth ddydd, ac mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn craffu ar y cynnydd a wneir;
- er i adrannau nodi ffyrdd o gynnal gwasanaethau clinigol pe bai TGCh yn methu, nid yw cynlluniau TGCh ar gyfer parhad busnes na chynlluniau TGCh ar gyfer adfer ar ôl trychineb yn cael eu dogfennu na'u profi'n ddigonol ac ni chreffir arnynt yn ddigonol ychwaith;
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â rhai o'r problemau a nodwyd yn dilyn fy ngwaith blaenorol ar wasanaethau mamolaeth a gofal heb ei drefnu ond mae'n dal i wynebu rhai heriau sylweddol o ran cynllunio ar gyfer gwasanaethau a sicrhau gwasanaethau diogel, cynaliadwy o safon.

## Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

**9.** Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 19 Mawrth 2012. Yna caiff ei gyflwyno mewn cyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ei hun (www.wao.gov.uk).

**10.** Hoffwn ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Yr adroddiad hwn

**11.** Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf yn ystod 2011.

**12.** Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- **a)** archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
- **b)** bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
- **c)** bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

**13.** Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
- gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a rheoli adnoddau;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
- archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
- gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.

**14.** Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn Atodiad 1.

**15.** Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- archwilio cyfrifon;
- trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau.

**16.** Yn olaf, rhydd Atodiad 2 yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

# Adran 1: Archwilio cyfrifon

**17.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2010-11. Mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol drwy'r datganiadau hyn ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

## Fy nghyfrifoldebau

**18.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
- a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu wall;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.

**19.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

**20.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:

- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
- systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater wrth wneud hynny

### Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

**21.** Paratowyd datganiadau ariannol drafft y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 yn unol â gofynion Llawlyfr Cyfrifon y GIG ac fe'u cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 4 Mai 2011. Cyflwynwyd y datganiadau ariannol archwiliedig hefyd i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau, sef 8 Mehefin 2011 a rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar y cyfrifon ar 14 Mehefin 2011. Roedd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys y balansau a'r trafodion yn ymwneud â Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, ac ni nodais unrhyw faterion o bwys ynddynt a oedd yn peri pryder.

**22.** Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 7 Mehefin 2011. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

#### Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Nodwyd tri chamddatganiad nas cywirwyd yn y datganiadau ariannol:<br>• gorddatganwyd croniadau'r GIG £195 o filoedd;<br>• gorddatganwyd incwm a gwariant gofal iechyd parhaus £178 o filoedd;<br>• gorddatganwyd y croniadau amcangyfrifedig ar gyfer cyffuriau a ragnodwyd £273 o filoedd. |
| Gellid gwella'r broses o ddangos costau staff wedi'u cyfalafu | O dan Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 16, mae gan y Bwrdd Iechyd yr hawl i gyfalafu costau staff, lle y gellir dangos bod y costau yn uniongyrchol briodoladwy i gostau adeiladu'r ased.<br>Mae costau staff o £619 o filoedd wedi eu cyfalafu yn 2010-11. Er i hyn syrthio o dan ein lefel brofi ar gyfer y flwyddyn, roeddwn o'r farn y gallai'r broses o nodi pa gostau staff y dylid eu cyfalafu gael ei dogfennu'n gliriach a'i chyfeirio'n ôl at safonau cyfrifyddu a chanllawiau Llywodraeth Cymru. |

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
| --- | --- |
| Nid oedd systemau digonol ar waith i nodi a rhoi cyfrif am werth eiddo, offer a chyfarpar a gaiff eu newid am rai newydd | Mae IAS 16 wedi bod yn gymwys i gyrff y GIG ers 2009-10. Mae'n nodi'r gofynion cyfrifyddu penodol ar gyfer cydnabod a mesur asedau sefydlog (a elwir yn 'eiddo, offer a chyfarpar') yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.<br>Yn unol ag IAS 16, pan gaiff rhannau o asedau eu newid, mae angen didynnu unrhyw werth sy'n weddill mewn perthynas â'r asedau a newidiwyd o werthoedd yr eiddo (dadgydnabod) ac mae angen cydnabod unrhyw ennill neu golled yn y cyfrif refeniw. Roedd hwn yn ofyniad newydd o 2009-10 ymlaen. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw systemau ar waith i nodi'r cyfryw werthoedd fel mater o drefn.<br>Rhoddodd fy ngwaith archwilio ynghyd â'r sylwadau a ddarparwyd gan y rheolwyr yn y Llythyr Sylwadau, sicrwydd rhesymol i mi nad oedd unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn natganiadau ariannol 2010-11 a oedd yn deillio o'r mater hwn. Fodd bynnag, bwriadaf gynnal trafodaethau pellach â Chyfarwyddwr Cyllid y Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru a'r Prisiwr Dosbarth i ystyried datblygu systemau i hwyluso'r gwaith o nodi gwerth asedau a ddadgydnabuwyd. |
| Roedd elfen o ansicrwydd yn gysylltiedig â pherfformiad Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PSPP) | Mae'r Bwrdd Iechyd yn 'dechrau'r cloc' ar berfformiad talu anfonebau pan dderbynnir yr anfoneb gan yr Adran Caffael i Dalu. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y dylid dechrau'r cloc pan dderbynnir yr anfoneb gan y Bwrdd Iechyd. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol a'n gwaith profi wedi nodi bod rhai anfonebau yn cael eu derbyn gan adrannau eraill. Felly nid yw'n bosibl nodi'r dyddiad dechrau cywir bob tro. Mae posibilrwydd felly bod perfformiad PSPP y Bwrdd Iechyd wedi ei orddatgan. Ar ôl cael eu derbyn gan yr Adran Caffael i Dalu roedd y Bwrdd Iechyd yn adrodd fod 86 y cant o anfonebau'n cael eu talu o fewn 10 diwrnod.<br>Ar gyfer anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi nodi y dylid dechrau'r cloc pan dderbynnir yr anfoneb gan y Bwrdd Iechyd, ei stopio pan fydd yr anfoneb wedi ei nodi yn un y mae anghydfod yn ei chylch ac yna ei ailddechrau pan fydd yr anghydfod wedi ei ddatrys. Ni wnaeth y Bwrdd Iechyd stopio'r cloc pan oedd yn datrys anghydfodau. Felly mae'n debygol i berfformiad PSPP gael ei danddatgan mewn perthynas â'r agwedd hon.<br>Rwyf wedi argymell y dylai'r Bwrdd Iechyd nawr ystyried sut y gallai systemau gael eu rhoi ar waith i ddatrys y materion hyn (gan ddangos yn benodol ar ba ddyddiad y derbynnir yr anfoneb) ar gyfer 2011-12. |
| Roedd un mater arall o bwys i'w drafod gyda'r rheolwyr | Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei dargedau statudol ar gyfer 2010-11, ond roedd hyn yn dibynnu ar arbedion sylweddol anghylchol o £9.3 miliwn ac arian ychwanegol o £18.2 miliwn ar gyfer pwysau a nodwyd yn ystod y flwyddyn. Bydd yr heriau ariannol sylweddol yn parhau yn 2011-12, gyda phwysau costau a nodwyd o tua £48.3 miliwn. |

## Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol

**23.** Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn codi o'm gwaith archwilio ariannol a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2011. Mae'r rhain yn cynnwys materion y cyfeirir atynt yn Arddangosyn 1 uchod a nifer o faterion eraill, fel y'u nodir yn Arddangosyn 2:

### Arddangosyn 2: Materion eraill sy'n ymwneud â systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Asedau anniriaethol | Ni nodwyd ac ni roddwyd cyfrif am asedau anniriaethol ar wahân: |
| Croniadau ac amcangyfrifon | Mae angen cryfhau'r trefniadau rheoli sy'n llywodraethu'r gwaith o gyfrifo croniadau ac amcangyfrifon credydwyr ar ddiwedd y flwyddyn; yn benodol:<br>• cyfrifyddu ar gyfer amcangyfrifon gofal sylfaenol;<br>• darparu ar gyfer costau amddiffyn achosion cyfreithiol wrth gefn;<br>• achosion o adfer neu gynyddu croniadau;<br>• croniadau credydwyr |
| Colledion a thaliadau arbennig | Dylid cysoni'r gofrestr colledion a thaliadau arbennig ac adroddiadau Cwantwm Gwasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru ar ddiwedd y flwyddyn. |
| Technegau archwilio drwy gymorth cyfrifiadur (CAATs) | Nododd CAATs y gyflogres a chredydwyr ddau faes lle roedd angen cryfhau rheolaethau er mwyn sicrhau eu bod yn glir ac yn cefnogi gwerth am arian;<br>• CAATS y Gyflogres - oriau a thaliadau goramser;<br>• CAATS credydwyr - defnyddio asiantaethau. |
| Gwasanaeth Gwrth-dwyll Lleol (LCFS) | Parhaodd nifer y diwrnodau LCFS a gynlluniwyd i fod yn is na'r hyn a argymhellir gan yr NCFS a chyfyngedig o hyd oedd y sylw o hyd a roddwyd i'r sector gofal sylfaenol. |
| TGCh | Roedd lle i wella'r trefniadau TGCh a'r rheolaethau i leihau'r risg o fynediad heb awdurdod a cholli data. |

**24.** Darparwyd swyddogaeth Archwilio Mewnol 2010-11 y Bwrdd Iechyd gan PricewaterhouseCoopers. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol yn rhan allweddol o drefniadau rheolaeth fewnol bwrdd archwiliedig ac rydym wedi asesu ei waith ac yn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau Gwasanaeth Archwilio Mewnol NHS Cymru. Daethom i'r casgliad bod y gwaith a wnaed gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi ei gwblhau i safon dderbyniol a gwnaethom geisio dibynnu ar y gwaith hwn lle bynnag roedd yn briodol gwneud hynny.

**25.** Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o adroddiadau allweddol y system Archwilio Mewnol ar gael i ni tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio ar 11 Ebrill 2011. O ganlyniad bu'n rhaid i ni ymestyn ein profion sylweddol ein hunain ar y datganiadau ariannol i'n galluogi i gael digon o sicrwydd.

### Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni cydbwysedd ariannol ar ddiwedd 2010-11, ond dim ond oherwydd arian anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o £18.2 miliwn

**26.** Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei dargedau ariannol statudol yn 2010-11, gydag arbedion o £28.3 miliwn yn cael eu cofnodi ar gyfer y flwyddyn. Hefyd, cafodd y Bwrdd Iechyd arian anghylchol ychwanegol gwerth £18.2 miliwn oddi wrth Lywodraeth Cymru a'i alluogodd i fantoli'r gyllideb. Yn sgîl elfennau anghylchol arian Llywodraeth Cymru ac arbedion 2010-11 cariodd y Bwrdd Iechyd ddiffyg sylfaenol o £27.5miliwn ymlaen i 2011-12.

# Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

**27.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd yn ystod 2011 i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r 'meysydd i'w datblygu' a nodwyd yn fy ngwaith ar Asesiad Strwythuredig 2010, ac a grynhowyd yn fy Adroddiad Archwilio Blynyddol ar gyfer 2010;
- ystyried perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran y defnydd o theatrau llawdriniaethau a chyfraddau llawdriniaeth ddydd;
- adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd o ran trefniadau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu;
- asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn sgîl gwaith archwilio blaenorol ar wasanaethau mamolaeth a gofal heb ei drefnu.

**28.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

## Mae trefniadau ar gyfer sicrhau arbedion effeithlonrwydd wedi eu cryfhau ac mae'r cyfeiriad teithio yn gadarnhaol ar y cyfan, ond erys risg wirioneddol na fydd y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd ei dargedau arbed costau ar gyfer 2011-12 ac felly na fydd yn llwyddo i aros o fewn y terfyn adnoddau a ddyrannwyd

**29.** Pwysleisiodd fy ngwaith ar Asesiad Strwythuredig 2010 fod angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael ar fyrder â'r meysydd i'w gwella y tynnwyd sylw atynt yn adolygiad cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Datganodd y Bwrdd Iechyd ei fod yn adfer yn ariannol ym mis Ionawr 2011 ac aeth ymlaen i sefydlu Rhaglen Datrys Problemau, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr Datrys Problemau a benodwyd ym mis Mehefin 2011. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â meysydd allweddol i'w gwella y tynnodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol sylw atynt. Er enghraifft mae atebolrwydd ac arweinyddiaeth glir bellach ar gyfer cyflawni targedau arbedion a chysylltiadau cliriach rhwng cyflawni prosiect a chyflawni arbedion. Bu gwelliannau hefyd o ran fformat a chysondeb y modd y cyflwynir adroddiadau ar raglenni arbedion. Fodd bynnag, nid yw effeithiolrwydd y trefniadau datrys problemau newydd wedi ei gyfleu'n llawn eto.

30. Aseswyd mai her ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2011-12 yw £48.3 miliwn sy'n cynnwys diffyg sylfaenol o £27.5 miliwn a phwysau costau newydd o £20.8 miliwn. Nododd Cynllun Ariannol Interim 2011-12, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Ebrill 2011, y byddai £26.5 miliwn o'r her ariannol yn cael ei gyflawni drwy arbedion o bump y cant o leiaf a ddisgwylid ym mhob maes gyda'r balans o £21.8 miliwn yn galw am fesurau effeithiolrwydd pellach.

31. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi enwi tîm amlddisgyblaethol i weithio ochr yn ochr â'r Cyfarwyddwr Datrys Problemau. Mae gan y Strategaeth Datrys Problemau dair elfen; Trefniadau Dwyn i Gyfrif (HTA), y Cynllun Blwyddyn Un a chylchoedd 60 diwrnod. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys staff clinigol a rhanddeiliaid mewn modd gweithredol yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno cynlluniau arbedion.

32. Mae'r trefniadau HTA a'r Cynllun Blwyddyn Un yn ymateb i'r her ariannol uniongyrchol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd yn 2011-12, gyda'r nod o nodi arbedion rhyddhau arian parod. Mae'r trefniadau HTA yn darparu her fwy cadarn o gynlluniau arbedion y cyfarwyddiaethau.

33. Adolygwyd y cynllun Blwyddyn Un ym Mis 4, a neilltuwyd Arweinydd Gweithredol i bob targed arbedion a fydd yn cael ei ddwyn i gyfrif am berfformiad yn erbyn y cynllun. Mae angen gwneud cynnydd yn awr ar gynlluniau Blwyddyn Dau a Blwyddyn Tri i gefnogi gwaith cynllunio ariannol tymor canolig.

34. Nod y cylchoedd 60 diwrnod yw sicrhau gwelliannau ymarferol ac uniongyrchol i rai heriau o ran gwasanaethau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl i'r gwaith hwn sicrhau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd yn y tymor hwy.

35. Ym mis Tachwedd 2011, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru arian ychwanegol o £17miliwn ar gyfer 2011-12, ac felly mae'r Bwrdd Iechyd wedi diwygio cyfanswm ei ofyniad o ran arbedion i £31.3 miliwn. Dengys sefyllfa ariannol Mis 9 fod y Bwrdd Iechyd wedi sicrhau arbedion o £16.5 miliwn. Er mwyn i'r Bwrdd Iechyd aros o fewn ei derfynau adnoddau, bydd angen iddo felly sicrhau arbedion pellach o £14.8 miliwn rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2012. Dangosodd y cynlluniau arbedion a adolygwyd eu bod yn dibynnu'n helaeth ar sicrhau arbedion yn rhan olaf y flwyddyn sy'n cynyddu'r risg o'u cyflawni. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i nodi y bydd yn cyrraedd ei dargedau ar gyfer y flwyddyn ariannol, o aros o fewn ei derfynau adnoddau.

## Yn ystod cyfnod o newid sefydliadol newydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â meysydd eraill i'w datblygu a nodwyd yn fy ngwaith ar Asesiad Strwythuredig 2010, ond erys rhai heriau sylweddol

36. Mae Arddangosyn 3 yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar gynnydd mewn perthynas â rhai o'r materion allweddol eraill a nodwyd yn fy ngwaith ar Asesiad Strwythuredig 2010. Wrth wneud gwaith dilynol ar y materion hyn, rwyf wedi ystyried cwmpas adolygiad ar wahân o drefniadau llywodraethu a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Nid yw canfyddiadau'r adolygiad hwnnw wedi eu cwblhau eto.

**37.** Gosodir y materion a ystyrir yn Arddangosyn 3 yn erbyn cefndir o raglen sylweddol o waith datblygu sefydliadol newydd a pharhaus. Mae penodi Prif Weithredwr newydd, sydd wedi bod yn ei swydd ers mis Chwefror 2011, wedi creu ysgogiad newydd ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r cyfeiriad teithio yn gadarnhaol, ond erys rhai heriau sylweddol ac mae'n rhy gynnar i farnu effaith lawn rhai o'r newidiadau y cyfeirir atynt isod.

**38.** Fel rhan o'i waith datblygu sefydliadol, mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu nodi fframwaith llywodraethu diwygiedig. Mae'n bwysig i'r cynigion hyn greu dull cydlynol, darbodus a ddeellir yn dda i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd a defnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithlon, effeithiol a darbodus. Yn sgîl y trefniadau pwyllgora newydd ac ochr yn ochr â gwaith y rhaglen datrys problemau, un pryder a fynegwyd oedd bod perygl o ddyblygu ymdrech a diffyg eglurder o ran llinellau atebolrwydd.

**39.** Er mwyn cefnogi gwaith hunanasesu yn erbyn modiwl llywodraethu ac atebolrwydd y Safonau Gofal Iechyd, mae angen i'r Bwrdd Iechyd hefyd ddangos bod ei drefniadau llywodraethu'n cael effaith gadarnhaol o ran mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi nodi sawl maes i'w wella yn seiliedig ar y ffordd y cynhaliodd y Bwrdd Iechyd yr ymarfer hunanasesu ar gyfer 2010-11, sy'n rhan allweddol o Ddatganiad am Reolaeth Fewnol blynyddol y Bwrdd Iechyd. Roedd y materion a nodwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys pryderon am amseriad y gwaith, prosesau ar gyfer datblygu ac adolygu ymatebion gwasanaethau, a sicrhau bod y dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ategu'r hunanasesiad yn glir ac yn dangos effaith y trefniadau sy'n cael eu disgrifio.

**Arddangosyn 3: Mynd i'r afael â materion a nodwyd yn fy ngwaith ar Asesiad Strwythuredig 2010**

| Thema/Themâu | Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd |
|---|---|
| Cyfeiriad strategol a strwythur sefydliadol | Yn ystod hydref 2011, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd gyfres bellgyrhaeddol o adolygiadau o wasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pwysleisio pwysigrwydd penodi clinigwyr, ac aelodau eraill o staff, yn y broses hon ac ymddengys fod y broses adolygu wedi cael ei derbyn yn dda yn gyffredinol. Mae datblygiadau cynllunio gwasanaethau eraill yn cynnwys cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, ac mae gwaith bellach yn mynd rhagddo i drosi'r fframwaith newydd yn newidiadau ar lawr gwlad.<br>Yn gyffredinol, mae cynlluniau ar gyfer ailgynllunio gwasanaethau wedi datblygu'n arafach na'r disgwyl yn fy marn i, er bod angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried y cyd-destun rhanbarthol/cenedlaethol. Efallai y collir y buddiannau o'r broses adolygu gwasanaethau, o ran penodi staff, os na all y Bwrdd Iechyd ymateb yn brydlon. Fodd bynnag, mae disgwyl bellach i gynigion o ran ad-drefnu gwasanaethau rhanbarthol gael eu dwyn ymlaen rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2012 gyda phroses ymgynghori ffurfiol yn dilyn hynny.<br>Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd wedi wynebu heriau o ran cynnal gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft, yn ystod hydref 2011 bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd drefnu i'r Uned Mân Anafiadau yn Ysbyty Cwm Rhondda gael ei chau dros dro i ryddhau staff er mwyn cynnal gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Er bod y problemau staffio sylfaenol wedi bod yn achos pryder ers tro, nid ydynt yn unigryw i Gwm Taf.<br>I raddau helaeth mae goblygiadau ailstrwythuro o ran ad-drefnu'r GIG yn 2009 wedi eu datrys. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynlluniau ar gyfer rhagor o waith ailstrwythuro, yn dilyn penodi Prif Swyddog Gweithredol ym mis Awst 2011 sydd â'r dasg o lywio gwelliannau o ran gwasanaethau a ddarperir. Rydym yn dal i ystyried goblygiadau llawn y trefniadau newydd ond mae'r egwyddorion allweddol yn cynnwys dod â thimau'r cyfarwyddiaethau yn agosach at y tîm gweithredol, gwella arweinyddiaeth glinigol, gwahanu swyddogaethau cyflawni a llywodraethu, ac integreiddio gwasanaethau'n well. Mae newidiadau ym mhortffolios uwch reolwyr yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godais o'r blaen ynghylch cydbwyso cyfrifoldebau. |
| Strwythurau pwyllgorau a rheoli perfformiad/risg | Mae datblygiadau allweddol yn cynnwys:<br>• Sefydlu Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad newydd.<br>• Ehangu aelodaeth y bwrdd gweithredol, gan gynnwys nifer gynyddol o glinigwyr, ac ailfywiogi Fforwm Cyfarwyddwyr Clinigol. Fodd bynnag, yn dilyn cyfarfod agoriadol ym mis Rhagfyr 2010, ni chyfarfu'r Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd eto tan fis Hydref 2011.<br>• Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd diwygiedig i gyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.<br>• Tystiolaeth o fwy o eglurder wrth gyflwyno adroddiadau ar wybodaeth am berfformiad allweddol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau a chymharu â byrddau iechyd eraill. Er bod y ffocws o hyd ar dargedau cenedlaethol craidd ac nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi'n glir ei amcanion lleol penodol, p'un a ydynt yn ymwneud â darparu gwasanaethau clinigol neu berfformiad sefydliadol ehangach, er enghraifft perfformiad amgylcheddol. |

| Thema/Themâu | Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd |
|---|---|
| | • Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu cynllun gweithredol ar gyfer 2012-13 a ddylai ddarparu mwy o eglurder o ran blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn ariannol honno ac y gellir mesur cynnydd yn ei erbyn.<br>Tynnodd fy ngwaith ar Asesiad Strwythuredig 2010 sylw at bryderon rhai aelodau'r bwrdd ynghylch ansawdd data. Mae'n glir, yn seiliedig ar drafodaethau diweddar yn y Pwyllgor Archwilio, fod pryderon o hyd. Er bod adroddiadau ar berfformiad y bwrdd wedi nodi bod y Bwrdd Iechyd yn perfformio'n dda, o gymharu â chyrff eraill y GIG, mewn perthynas â dangosyddion ansawdd data cenedlaethol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi rhai pryderon penodol ynghylch ansawdd data mewn perthynas â chyfraddau marwolaethau (lle mae perfformiad a gofnodwyd o gymharu â thueddiadau Cymru gyfan wedi bod yn wael). Rwyf wrthi'n cwblhau adolygiad o drefniadau ansawdd data'r Bwrdd Iechyd.<br>Nid wyf wedi adolygu'r broses o reoli risg fel rhan o'm gwaith ar Asesiad Strwythuredig 2011. Mae adolygiad llywodraethu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cynnwys gwaith yn y maes hwn ac mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol hefyd yn cwblhau adolygiad rheoli risg. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen gwneud rhagor o waith o hyd i roi sicrwydd bod risgiau sefydliadol allweddol yn cael eu mynegi a'u cyfeirio at y person priodol. |
| Cwynion, hawliadau ac ymgyfreitha | Seiliais fy adroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2010 ar waith Cronfa Risg Cymru yn 2009-10, a heriodd y Bwrdd Iechyd i arddangos bod ganddo ddull clir, cyson wedi ei ddogfennu o'r ffordd y caiff gwersi eu nodi, eu gweithredu a'u rhaeadru. Yn ei asesiad o reoli hawliadau yn 2010-11, adroddodd Cronfa Risg Cymru nad oedd yn gallu rhoi sicrwydd ynghylch cadernid y trefniadau hyn, gyda thystiolaeth gyfyngedig o gynnydd ers 2009-10. Nododd hefyd nad oedd fformat na chynnwys adroddiadau mewnol mewn perthynas â hawliadau yn bodloni gofynion sylfaenol.<br>Yn ei grynodeb blynyddol o berfformiad ar gyfer 2010-11, nododd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gynnydd yn nifer y cwynion a dderbynnir gan ei swyddfa, a'r rhai yr ymchwilir iddynt. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon at y cyfle posibl i'r Bwrdd Iechyd ddatrys materion ar gam cynharach, gan osgoi'r angen i atgyfeirio cwynion at ei swyddfa. Mynegodd siom hefyd ynghylch cyflymder ymateb y Bwrdd Iechyd i'w geisiadau am wybodaeth.<br>Ym mis Ebrill 2011, trosglwyddodd y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb am reoli cwynion, hawliadau ac ymgyfreitha i'r uned gofal a diogelwch i gleifion (o'r tîm gwasanaethau corfforaethol) gan fod yn atebol i'r Cyfarwyddwr Nyrsio. Mae'r trefniadau hyn yn amodol ar adolygiad parhaus gan Gronfa Risg Cymru a'r Ombwdsmon. Maent hefyd wedi cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad llywodraethu a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. |

| Thema/Themâu | Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd |
| --- | --- |
| Swyddogaethau rheoli mewnol | Fel y nodwyd yn Arddangosyn 2, mae nifer y dyddiau gwasanaeth gwrth-dwyll lleol a gynlluniwyd yn parhau i fod yn is na'r hyn a argymhellir gan y Gwasanaeth Gwrth-dwyll Cenedlaethol a chyfyngedig o hyd yw'r sylw a roddir i'r sector gofal sylfaenol. Am y rhesymau hyn rwyf wedi penderfynu gwneud rhagor o waith ar risgiau o dwyll ym maes gofal sylfaenol, gan ganolbwyntio'n benodol ar wasanaethau deintyddol.<br>Prin fu'r cynnydd a wnaed i ymestyn cyrhaeddiad y rhaglen archwilio ac effeithiolrwydd clinigol i ofal sylfaenol a bydd angen mynd i'r afael â hyn yn awr wrth ddatblygu strategaeth archwilio ac effeithiolrwydd clinigol diwygiedig. Roedd disgwyl i'r strategaeth bresennol, a etifeddwyd oddi wrth Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf gael ei hadolygu ym mis Ionawr 2012. Wrth ddatblygu'r rhaglen archwilio clinigol ar gyfer 2011-12, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ceisio cysoni gwaith â gofynion y Fframwaith Ansawdd Blynyddol, yn ogystal ag ystyried cynnal aml-archwiliadau i ddangos newid. Ond mae cyfleoedd o hyd i lunio'r rhaglen fel ei bod yn fwy cyson â blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd, er enghraifft i gynnwys gwaith dilynol ar faterion a godwyd yn sgîl cwynion a hawliadau.<br>Mae materion o ran strwythur staffio sydd heb eu datrys wedi effeithio ar gynnydd y rhaglen archwilio clinigol, ochr yn ochr ag agweddau eraill ar waith yr uned gofal a diogelwch i gleifion. Mae disgwyl i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol sy'n gyfrifol am yr Uned adael y sefydliad yn fuan ac mae goblygiadau i waith yr Uned hefyd o ganlyniad i'r cynigion ailstrwythuro diweddaraf.<br>Mae graddfa gyffredinol y rhaglen Archwilio Mewnol yn gymharol fach o hyd o'i chymharu â byrddau iechyd eraill. Gall trefniadau cydwasanaethau yn y dyfodol arwain at newidiadau o ran y sylw a roddir iddynt. Fodd bynnag, oherwydd diffyg eglurder ynghylch y trefniadau hynny, mae'r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu ymestyn y contract cyfredol ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol hyd at fis Medi 2012. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi mynegi pryder ynghylch nifer y dyfarniadau sicrwydd cyfyngedig a geir mewn adroddiadau ar waith a wnaed yn 2010-11. Er bod angen cymryd camau gweithredu pellach, nododd gwaith dilynol ynghanol 2010-11 fod cynnydd wedi ei wneud tuag at weithredu llawer o argymhellion risg uchel y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mae adroddiadau diweddar y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi dyfarniadau mwy ffafriol, ar y cyfan. |

| Thema/Themâu | Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd |
|---|---|
| Materion sy'n ymwneud â'r gweithlu | Mae cynllunio'r gweithlu wedi parhau i wella, gan gynnwys gwell gwybodaeth am y gweithlu gofal sylfaenol. Mae ymarfer 2010-11 eto i'w wneud ac nid oes eglurder ynghylch y cynlluniau ar gyfer ailgynllunio gwasanaethau, er bod arweinwyr y gweithlu wedi bod yn rhan weithredol o'r adolygiadau diweddar o wasanaethau.<br>Dangosodd cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch arwyddion o welliant yn ystod 2010-11, a chofnodwyd cyfraddau o dan bump y cant ar gyfer Mawrth, Ebrill a Mai 2011. Fodd bynnag, cynyddodd cyfraddau absenoldeb yn gyson yn y cyfnod rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2011. Cyfeiriodd y gwaith Archwilio Mewnol ynghanol 2010 at bryderon amrywiol ynghylch cywirdeb data a chydymffurfiaeth weithdrefnol. Mae'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn adolygu'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r pryderon hyn, ochr yn ochr ag adolygiad o'r gwasanaeth asesu a chynghori o ran absenoldeb oherwydd salwch sef Worksure.<br>Mae ymarferoldeb hunanwasanaeth rheolwyr yn y Cofnod Staff Electronig bellach yn cael ei gyflwyno, ynghyd â chynlluniau ar gyfer gweithredu system e-restru.<br>Mae'r gwaith Archwilio Mewnol ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer staff meddygol ac anfeddygol wedi amlygu'r angen i weithredu mewn perthynas â threfniadau monitro, cadw cofnodion a hyfforddiant. |
| | Er bod canfyddiadau archwilio diweddaraf o ran Hanfodion Gofal wedi cyfeirio at welliannau, mae materion ynghylch cyflwyno hyfforddiant gorfodol wedi eu cynnwys yn fy ngwaith diweddar ar theatrau llawdriniaethau a gwasanaethau mamolaeth, ac mewn gwaith gan Gronfa Risg Cymru. Canfu'r gwasanaeth Archwilio Mewnol nad oedd gan y Bwrdd Iechyd system ganolog i nodi'n hawdd ofynion hyfforddiant ac olrhain cynnydd. Mae system rheoli dysgu ganolog, a ddatblygwyd fel rhan o brosiect Cymru gyfan, bellach yn cael ei chyflwyno.<br>Mae cydymffurfio â threfniadau cofnodi adolygiadau o ddatblygiad personol wedi bod yn gwella, ond mae llawer o waith eto i'w wneud. Ar ganol mis Hydref 2011, adroddodd y Bwrdd Iechyd fod adolygiad cyfredol wedi ei gofnodi gan 29 y cant o'r staff ar y system Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau. Roedd y ffigur hwn yn cymharu â 12 y cant ym mis Rhagfyr 2010. Mae gwaith wedi parhau hefyd i nodi'r aelodau hynny o staff y mae anghysondebau bandiau cyflog yr Agenda ar gyfer Newid wedi effeithio arnynt. Mae'r Bwrdd Iechyd yn aros am bolisi Cymru gyfan cyn y gall gadarnhau nifer y staff yr effeithiwyd arnynt.<br>Fel y nodwyd eisoes mewn perthynas â meddygaeth damweiniau ac achosion brys, mae'r sefyllfa o ran staff meddygol yn anodd o hyd. Nid yw cynlluniau i recriwtio gweithwyr o dramor yn debygol o fod mor fuddiol â'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol. |

| Thema/Themâu | Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd |
|---|---|
| Caffael | Gwnaed rhywfaint o gynnydd pellach o ran ymestyn cyrhaeddiad y swyddogaeth gaffael i feysydd gwariant a etifeddwyd oddi wrth y Byrddau Iechyd Lleol rhagflaenol. Er enghraifft, mae'r tîm caffael wedi bod yn ymwneud â thendr ynghylch iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â gofal iechyd parhaus. Mae'r tîm caffael hefyd yn edrych ar gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r trydydd sector ac yn bwriadu cyfarfod â rheolwyr ardal i drafod gofal cartref, sef maes arall lle ceir llawer o wariant.<br>Mae angen i bolisi caffael cynaliadwy gael ei gymeradwyo'n lleol o hyd, er bod y drafft wedi cael ei gadarnhau gan grŵp Cymru gyfan.<br>Mae cwmpas catalogau (h.y. cyfran y pryniannau a wnaed o restrau cymeradwy) wedi gwella ond mae dal yn brin o darged y Bwrdd Iechyd o 75 y cant (y ffigur a gofnodwyd ar ddiwedd mis Hydref 2011 oedd 56 y cant.<br>Mae'r ffaith bod y 'nyrs gaffael' flaenorol wedi gadael wedi effeithio ar gynnydd o ran gwaith i fynd i'r afael â rheoli cyflenwadau wardiau. Fodd bynnag, penodwyd nyrs newydd yn y rôl honno gan y Bwrdd Iechyd ym mis Medi 2011 ac mae wedi bod yn gwirio lefelau cyflenwadau a lefelau nad ydynt yn ymwneud â chyflenwadau ar wardiau ac mae'n gweithio gyda'r uned gaffael i sicrhau bod contractau priodol ar waith ac er mwyn safoni prosesau. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â'r rhaglen datrys problemau. |
| Rheoli ystadau | Yn ôl y disgwyl, mae buddsoddiad cyfalaf parhaus a rhesymoli ystâd y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at leihau ôl-groniad o gostau cynnal a chadw.<br>Fodd bynnag, er gwaethaf perfformiad gwell, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi llwyddo i gyrraedd y rhan fwyaf o dargedau allweddol Cymru gyfan sy'n ymwneud â'r ystâd. Mae perfformiad ynni wedi dirywio ers 2009-10, yn bennaf oherwydd mwy o alw amdano fesul metr sgwâr yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd mewn perthynas â chydymffurfio o ran diogelwch tân yn bryder penodol, a bu problemau parhaus mewn perthynas â rheoli asbestos. Fodd bynnag, hysbyswyd y Pwyllgor Risg Gorfforaethol am y problemau hyn ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â hysbysiadau gwella/gorfodi cysylltiedig.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei bryderon ei hun ynghylch prosesau cynllunio cyfalaf dewisol, gan gynnwys achosion lle roedd angen cyllid ychwanegol ar ôl cymeradwyo prosiectau cyfalaf dewisol; lle na chyflawnwyd prosiectau arfaethedig neu lle yr aethpwyd i gryn dipyn o wariant arfaethedig yn hwyr ym mlwyddyn ariannol 2010-11. Ystyriodd y Pwyllgor Archwilio adroddiad Archwilio Mewnol ar y mater hwn ym mis Hydref 2011, a chanfu'r adroddiad fod camau gweithredu eisoes wedi eu cymryd i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon hyn, a bod newidiadau eraill ar y gweill. Ym mis Ionawr 2012, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio weithdrefn monitro cyfalaf ddiwygiedig. |

| Thema/Themâu | Cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd |
|---|---|
| Gwybodeg | Mae pryderon parhaus ynghylch y cydbwysedd rhwng galw, o ran datblygu system TGCh, a'r adnoddau sydd ar gael i gwblhau'r gwaith sy'n ofynnol. Mewn sawl maes, bwriedir i ddatblygiadau system TGCh gefnogi'r gwaith o ailgynllunio gwasanaethau a/neu arbedion effeithlonrwydd.<br>Er bod y Bwrdd Iechyd wedi neilltuo adnoddau dros dro ychwanegol i fynd i'r afael â phwysau brys, mae pryderon ynghylch y lefelau staffio sylfaenol wedi codi unwaith eto wrth i'r trefniadau dros dro hyn ddod i ben.<br>Mae gwaith y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu gwybodaeth, a'r gwaith dilynol a wnaed ganddo ar argymhellion a wnaed i Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf yn 2009-10, wedi dangos, er i gynnydd gael ei wneud, mai dim ond un o blith deuddeg argymhelliad blaenorol a oedd wedi cael ei weithredu'n llawn.<br>Yn ddiweddar, nododd y Bwrdd Iechyd gynigion i newid trefniadau llywodraethu mewn perthynas â'i waith ar wybodeg, er mwyn helpu i reoli'r risgiau a gododd yn sgîl gwahanu cyfrifoldebau cysylltiedig ar lefel cyfarwyddwr.<br>(mae paragraffau 43 i 44 yn sôn am gasgliadau cyffredinol fy adolygiad diweddar o drefniadau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes) |
| Gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau | Mae canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn sgîl fy ngwaith ar ofal heb ei drefnu a chyflyrau cronig yn nodi bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu ei gydberthnasau â'i bartneriaid awdurdod lleol. Yn benodol, mae tystiolaeth fod gan bartneriaid awdurdod lleol hyder o'r newydd o ran ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i weithio mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau. Ceir deialog cyson ar lefel uwch reolwyr a chymerwyd camau i edrych o'r newydd ar y strwythurau llywodraethu sy'n ategu cydweithio yn y meysydd hyn.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â'i bartneriaid awdurdod lleol wrth ddatblygu'r cynlluniau diweddaraf o ran 'iechyd, gofal cymdeithasol a lles' a 'phlant a phobl ifanc'. Mae hefyd wedi gweithio gyda dau awdurdod lleol a grwpiau yn y sector gwirfoddol i gytuno ar god ymarfer newydd ar waith comisiynu'r sector cyhoeddus o wasanaethau trydydd sector.<br>Yn flaenorol, nodais mewn adroddiad bod y Bwrdd Iechyd wedi bwriadu datblygu 'strategaeth dinasyddion' newydd, ar ddechrau 2011, gan ddwyn ynghyd faterion gan gynnwys: ymgysylltu'n ehangach â dinasyddion; gwaith ar brofiadau cleifion; ysbrydolrwydd; urddas; a gwirfoddoli. Fodd bynnag, mae trosiant staff ac absenoldeb oherwydd salwch wedi arafu cynnydd ac nid yw amserlenni ar gyfer cwblhau'r strategaeth hon yn glir.<br>Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid bellach wedi ei sefydlu'n gadarn, ac wedi darparu fforwm defnyddiol lle y gellir trafod datblygiadau sefydliadol amrywiol, gan ategu dulliau ymgysylltu eraill.<br>Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu nodi staff o bob rhan o'r sefydliad i gymryd rhan mewn hyfforddiant i gynnwys y cyhoedd/ymgysylltu â dinasyddion ar y cyd â'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH) a Chyfranogaeth Cymru. Mae hwn yn gyfle amserol i gefnogi gwaith y bydd angen ei wneud i ddatblygu'r strategaeth ymgysylltu â dinasyddion a chefnogi gwaith ymgynghori ar newid gwasanaethau yn y dyfodol. |

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredu i fynd i'r afael â meysydd lle mae perfformiad yn gymharol wael, sef meysydd a nodwyd yn fy ngwaith ar theatrau llawdriniaethau a llawdriniaeth ddydd, ac mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn craffu ar y cynnydd a wneir

**40.** Fel rhan o'm gwaith i bennu cwmpas ar gyfer y Bwrdd Iechyd i gyflawni mwy o arbedion effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau, rwyf wedi ystyried y defnydd o theatrau llawdriniaethau a chyfraddau llawdriniaeth ddydd. Defnyddiodd y gwaith hwn gymariaethau perfformiad gyda sampl o ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr a chyda byrddau iechyd eraill yng Nghymru, yn seiliedig ar gyfnod chwe wythnos o weithgaredd ynghanol 2010. Rhannais fy nghanlyniadau meincnodi gyda'r Bwrdd Iechyd ar ddiwedd 2010 ar ddechrau fy ngwaith maes ar y safle.

**41.** Nododd fy ngwaith nifer o faterion yr oedd angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy er mwyn gwella ei berfformiad o ran theatrau llawdriniaethau a llawdriniaeth ddydd. Yn fwyaf nodedig:

- Mae cyfuniad o ffactorau wedi arwain at ddefnydd cymharol wael o theatrau a chyfraddau achosion dydd cymharol wael. Roedd y ffactorau a nodwyd yn fy adroddiad yn cynnwys: gwendidau o ran asesiadau cyn llawdriniaethau sef rhywbeth, pes ymdrinnid ag ef, a fyddai'n lleihau'r gyfradd ganslo; y ffordd yr oedd rhestrau theatrau'n cael eu cynhyrchu a'u hadolygu; problemau o ran llif cleifion ac argaeledd gwelyau; a phroblemau o ran rheoli gwyliau a phrydlondeb staff meddygol.
- Roedd gwella perfformiad theatrau yn flaenoriaeth amlwg ac roedd y Bwrdd Iechyd wedi pennu rhai amcanion strategol cysylltiedig ond nid oedd gweledigaeth gyffredinol ar gyfer gwasanaethau theatrau.
- Roedd staff theatrau ar y cyfan yn hyderus ynghylch diogelwch ond roedd gan rai ganfyddiadau negyddol am eu llwyth gwaith, hyfforddiant gorfodol, dulliau cyfathrebu a rheoli gwasanaethau o ddydd i ddydd.
- Roedd lle i wella'r ffordd y cynhyrchir ac y defnyddir gwybodaeth am berfformiad theatrau llawdriniaethau a llawdriniaeth ddydd.

**42.** Gwnaeth fy ngwaith maes ôl-ddyddio Rhaglen Datrys Problemau gyfredol y Bwrdd Iechyd, sydd wedi cynnwys ffocws ar nifer o faterion cysylltiedig, gyda chefnogaeth Uned Cyflawni a Chefnogi Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn cymryd rhan yn y fenter Trawsnewid Theatrau a gydlynir gan NLIAH. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad bellach yn craffu ar gynnydd. Er i'r Pwyllgor fynegi ei siom ynghylch cyflymder ymateb y Bwrdd Iechyd i'r materion a nodwyd gan fy ngwaith, mae cynllun gweithredu bellach ar waith.

## Er i adrannau nodi ffyrdd o gynnal gwasanaethau clinigol pe bai TGCh yn methu, nid yw cynlluniau parhad busnes TGCh na chynlluniau adfer ar ôl trychineb yn cael eu dogfennu na'u profi'n ddigonol ac ni chreffir arnynt yn ddigonol ychwaith

**43.** O gofio'r ddibyniaeth gynyddol ar systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i ategu'r modd y cyflawnir gofal iechyd, mae'n bwysig i gyrff y GIG ddangos bod trefniadau effeithiol ar gael i leihau'r risgiau o darfu ar y systemau hyn. Felly rwyf wedi archwilio elfennau TGCh trefniadau adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes y Bwrdd Iechyd i gadarnhau a ydynt yn cefnogi'r gwaith o gyflawni systemau a gwasanaethau TGCh cadarn. Canolbwyntiodd y gwaith hwn ar drefniadau mewn perthynas â systemau allweddol o fewn chwe adran gwasanaethau clinigol (radioleg; patholeg; damweiniau ac achosion brys; fferylliaeth; theatrau; gofal dwys) ac ar gyfer y seilwaith a'r rhwydwaith TGCh cyfan.

**44.** Deuthum i'r casgliad uchod oherwydd:

- Nid oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau TGCh o ran parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb ar gyfer meysydd allweddol sydd wedi eu dogfennu'n ddigonol, er bod adrannau wedi nodi trefniadau i gynnal gwasanaethau clinigol pe bai TGCh yn methu;
- nid yw trefniadau TGCh o ran adfer ar ôl trychineb a pharhad busnes yn cael eu profi'n ddigonol;
- mae angen cryfhau trefniadau llywodraethu ar gyfer cynllunio parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb, yn benodol:
  - er bod prosesau i ddysgu'r gwersi o ddigwyddiadau TGCh, nid oes gwaith monitro rheolaidd o berfformiad y seilwaith a'r systemau TGCh na threfniadau cymorth cysylltiedig;
  - nid oes gan gynlluniau parhad busnes broffil cryf o fewn trefniadau llywodraethu presennol.

## Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â rhai o'r problemau a nodwyd yn dilyn fy ngwaith blaenorol ar wasanaethau mamolaeth a gofal heb ei drefnu ond mae'n dal i wynebu rhai heriau sylweddol o ran cynllunio ar gyfer gwasanaethau a sicrhau gwasanaethau diogel, cynaliadwy o safon

**45.** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â phryderon ac argymhellion sy'n deillio o'm gwaith archwilio blaenorol ar wasanaethau mamolaeth a gofal heb ei drefnu. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol yn Arddangosyn 4.

**Arddangosyn 4: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr archwiliad**

| Maes y gwaith dilynol | Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad |
|---|---|
| Gwasanaethau mamolaeth<br>*(ystyriodd y gwaith hwn gynnydd mewn perthynas â materion a amlygwyd mewn adroddiadau i hen ymddiriedolaethau GIG Gogledd Morgannwg a Phontypridd a Rhondda yn 2008, ac mewn adroddiad Cymru gyfan ym mis Mehefin 2009)* | Deuthum i'r casgliad, er i'r Bwrdd Iechyd wneud cynnydd o ran gwella ei wasanaethau mamolaeth, ei fod yn wynebu heriau sylweddol o hyd o ran cynllunio ar gyfer gwasanaethau diogel a chynaliadwy a sicrhau'r gwasanaethau hynny. Yn fwy penodol, nodais y canlynol:<br>• mae gwasanaethau mamolaeth yn flaenoriaeth gorfforaethol uchel, ac fe'u hategir gan ymgysylltiad clir y tîm gweithredol a'r uwch reolwyr;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella'r sail dystiolaeth i ategu'r gwaith o gynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad, er bod lle i wella ymgysylltiad defnyddwyr o hyd;<br>• er bod gofal diogel ac effeithiol wedi ei flaenoriaethu, bu pryderon ynghylch gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal gwasanaethau presennol ac mae gwaith gan Gronfa Risg Cymru wedi amlygu nifer o risgiau gweithredol eraill;<br>• mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella gofal mamolaeth, gyda mwy o ffocws ar gyflawni gofal cynenedigol yn y gymuned a gwelliannau o ran rheoli bwydo ar y fron, er bod cyfraddau Toriad Cesaraidd uchel yn broblem o hyd. |
| Gofal heb ei drefnu - gwaith dilynol rhagarweiniol<br>*(gwaith dilynol ar faterion yn deillio o adroddiad Cymru gyfan a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009)* | Deuthum i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i wella'r system gofal heb ei drefnu ond araf fu'r cynnydd mewn rhai meysydd ac nid yw effaith y camau hyn eto wedi dangos gwelliant parhaol yn erbyn targedau allweddol.<br>Rwyf wrthi'n cwblhau gwaith manylach ar y pwnc hwn a bwriadaf gyflwyno adroddiad ar fy nghanfyddiadau ynghyd â chanfyddiadau o waith archwilio diweddar ar reoli cyflyrau cronig ac ar ymgysylltiad clinigol. |

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol | Mehefin 2011 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | 14 Mehefin 2011 |
| Memorandwm Datganiadau Ariannol | Medi 2011 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Gofal Heb ei Drefnu: Gwaith Dilynol Rhagarweiniol | Mehefin 2011 |
| Gwasanaethau Mamolaeth: Adolygiad Dilynol | Hydref 2011 |
| Theatrau Llawdriniaethau a Llawdriniaeth Ddydd | Tachwedd 2011 |
| Trefniadau TGCh ar gyfer Adfer ar ôl Trychineb a Pharhad Busnes | Chwefror 2012 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Amlinelliad o Waith Archwilio 2011 | Mehefin 2011 |

Mae hefyd nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith. Bwriadaf ddwyn ynghyd fy nghanfyddiadau o'm gwaith ar reoli cyflyrau cronig, gofal heb ei drefnu ac ymgysylltiad clinigol mewn un adroddiad.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig |
|---|---|
| Rheoli Cyflyrau Cronig | Mai 2012 |
| Gofal heb ei Drefnu - Gwaith Dilynol Manwl | Mai 2012 |
| Ymgysylltiad clinigol (modiwl ar wahân o'm gwaith ar Asesiad Strwythuredig 2011) | Mai 2012 |
| Ansawdd data (modiwl ar wahân o'm gwaith ar Asesiad Strwythuredig 2011) | Mai 2012 |
| Risgiau o ran Twyll mewn Gofal Sylfaenol | Mai 2012 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2011 ffi archwilio arfaethedig o £455,743 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodir yn yr amlinelliad .

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, codwyd ffi o £11,025 am y gwaith archwilio a wnaed ar y cydwasanaethau a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk